Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Panteg

**Station Road**
**Griffithstown**
**Pont-y-Pŵl**
**Torfaen**
**NP4 5JH**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Panteg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Panteg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 408 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 310 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 47 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 27.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 16.1%) | 18.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 31/05/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/09/2023 |
| Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Panteg yn gymuned deuluol, gynhwysol a chartrefol lle mae gwerthoedd 'Pedwar Panteg' i ymrwymo i fod yn garedig, yn deuluol cyd-gefnogol, yn angerddol ac uchelgeisiol yn amlwg yng ngweithgarwch yr ysgol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus. Mae ymdeimlad ac ethos gofalgar tuag at bob disgybl. Mae'r staff yn creu amgylchedd dysgu eithriadol o gynnes a diogel lle mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Ers ei benodiad, mae'r pennaeth wedi sefydlu prosesau trylwyr ar draws yr ysgol i sicrhau cysondeb yn yr addysgu a dysgu sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion. Mae systemau manwl ar waith i olrhain cynnydd addysgol a lles pob disgybl ac mae'r staff yn darparu amrediad eang o gefnogaeth fwriadus er mwyn diwallu anghenion y disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn gadarn. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion a chyfoedion ac yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio ymadroddion Cymraeg yn deillio o gynllun manwl gramadeg yr ysgol. Er hynny, nid ydynt bob tro'n cael cyfleoedd digon bwriadus er mwyn ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu.

Mae'r staff yn cydweithio'n hynod o effeithiol er mwyn diwallu anghenion y disgyblion. Maent yn fodelau iaith da ac yn annog y disgyblion i fod yn falch o'u Cymreictod. Fodd bynnag, ar adegau, mae staff yn gorarwain y dysgu, sydd yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw'r modd mae arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau ymglymiad yr holl gymuned yn addysg y disgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr yn angerddol am ddatblygiad proffesiynol staff ac yn sicrhau cyfleoedd bwriadus iddynt hyfforddi ymhellach.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol

A2 Sicrhau lefel briodol o her i gefnogi'r disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd da yn eu medrau o’u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n dda ar ei gilydd ac oedolion. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac yn ymateb i gwestiynau yn bwrpasol, er enghraifft wrth greu ffosilau allan o halen. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio cystrawennau naturiol Cymraeg yn llwyddiannus wrth iddynt gyflwyno rhagolygon y tywydd ar hyd a lled Cymru. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn ymateb i safbwyntiau eraill yn aeddfed yn y ddwy iaith ac yn gwrando’n barchus ar gyflwyniadau llafar ei gilydd.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn gynyddol hyderus, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau ar sut i ddarganfod cynhwysion i bobi cymeriadau bach sinsir. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn darllen yn gynyddol gywir yn y Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn Saesneg. Maent yn defnyddio goslef a mynegiant wrth ddarllen ar goedd. Yn ogystal, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain a choladu gwybodaeth yn y ddwy iaith o amrywiol ffynonellau.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu’n llwyddiannus. Maent yn dechrau creu llythrennau a chyfateb seiniau a llythrennau yn gynnar. Ym Mlwyddyn 2, maent yn dechrau ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, sy’n cynnwys datblygu bwrdd stori wrth gynllunio ymholiad gwyddonol ar y broses o greu siocled. Erbyn Blwyddyn 5 a 6, mae gan lawer ddealltwriaeth gynyddol o ramadeg, sy’n cynnwys y defnydd cywir o ferfau a threigladau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn ystod o ffurfiau yn llwyddiannus, sy’n cynnwys llunio adroddiad hanesyddol diddorol am Byramid Mawr Giza.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod rhifau, ac yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, drwy gyfri concyrs i greu graff gweledol a thrwy ddefnyddio mesuriadau ansafonol i amcangyfrif faint o hylif sydd mewn poteli cegolch yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu ystod dda o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd cadarn, er enghraifft wrth fesur cynhwysion ac wrth gymharu tymheredd Cymru a Tsiena. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau yn fuddiol; er enghraifft, mae llawer ym Mlwyddyn 3 yn defnyddio eu medrau rhif yn effeithiol wrth arbrofi gyda burum i goginio bara. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu amrediad buddiol o fedrau mathemategol yn gadarn, er enghraifft wrth gyfri onglau coll amrywiaeth o siapiau 2D a thrwy ddatrys rhifau coll algebrâu. Er hynny, nid ydynt bob tro’n cael cyfleoedd digon bwriadus er mwyn ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol at wahanol ddibenion. Mae'r disgyblion ieuengaf, er enghraifft, yn hyderus yn defnyddio amrywiaeth o raglenni sy'n cyfoethogi eu dysgu yn effeithiol. Maent yn rheoli tegan rhaglenadwy i gysylltu gwledydd â'u baneri fel rhan o'u gwaith thema ac mae eu medrau codio yn dechrau datblygu. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn cymhwyso eu medrau digidol i safon addas ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio eu medrau codio i greu gêm dyfalu'r anifail ar gyfer disgyblion y dosbarth derbyn. Er hynny, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o daenlenni.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarn at weithgareddau corfforol. Maent yn mwynhau sesiynau addysg gorfforol ac yn ymroi'n bwrpasol i ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn gwella eu ffitrwydd wrth wneud mabolgampau helfa drysor rhifau ac yn gallu esbonio'n hyderus pam mae cyfradd curiad y galon yn codi yn ystod ymarfer corff.

Mae medrau creadigol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn, gyda phrofiadau gwerthfawr iddynt greu gwaith celf a cherddoriaeth. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio eu dealltwriaeth o linell a thôn i greu lluniau medrus sy'n rhagfynegi stori 'Goodnight Mister Tom'.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus o fewn cymuned ofalgar a chynhwysol yr ysgol. Maent yn hyderus bod staff yn gwrando ac yn ymateb yn brydlon pan fydd ganddynt bryderon neu angen cefnogaeth. Mae'r rhan fwyaf yn dangos balchder yn eu hysgol ac mae gwerthoedd 'Pedwar Panteg' wedi'u gwreiddio. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gallu siarad yn hyderus am bwysigrwydd bod yn garedig, yn uchelgeisiol, yn angerddol a phwysigrwydd teulu. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau'r ysgol o safbwynt ymddygiad, ac felly, mae bron bob disgybl yn gwrtais a moesgar gyda staff ac ymwelwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol iawn o sut i fanteisio ar ddarpariaeth flaengar yr ysgol i hyrwyddo eu lles eu hunain. Mae rhaglenni cynhwysfawr yn cefnogi disgyblion ac yn eu rhoi mewn lle mwy cadarn i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwytnwch emosiynol cadarn trwy gyfleoedd i drafod eu teimladau, sy'n datblygu eu hyder a'u hunanddelwedd yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol ac yn mwynhau cael mynediad i offer ffitrwydd amser chwarae, sy'n hygyrch i bob disgybl. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les a ffitrwydd y rhan fwyaf o ddisgyblion ac maent yn ymwybodol o'r angen i wneud dewisiadau iach yn yr ysgol fel bwyta ffrwythau ac yfed dŵr.

Trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol a gwybodus. Mae ganddynt synnwyr cryf o degwch a chydraddoldeb ac maent wedi creu siarter hawliau Panteg er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd cyfartal. Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu'r gallu a'r parodrwydd i rannu a mynegi barn ar

bynciau fel ‘bod yn ddinesydd fy ngwlad’ ac yn dangos empathi at anghenion pobl sydd mewn angen.

Mae’r rhan fwyaf o aelodau grwpiau yn falch o’u rolau ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri. Mae’r cynrychiolwyr yn gweithio’n frwdfrydig ar amrywiaeth o weithgareddau ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae’r cyngor ysgol wedi helpu i sefydlu Caban y Coed ar gyfer datblygu gweithgareddau dysgu awyr agored yr ysgol, ac mae’r cyngor eco wedi sefydlu tŷ eco ble maent yn ailgylchu dillad ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd hyrwyddo cynaliadwyedd yng nghymuned yr ysgol yn effeithiol.

Trwy waith y disgyblion sy’n arweinwyr digidol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar lein. Enghraifft dda yw’r modd y mae’r arweinwyr hyn wedi creu cyfres o reolau diogelwch ar lein i ddisgyblion yn sôn am bwysigrwydd cadw manylion personol yn breifat, bwlio ar lein ac olion traed digidol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu o’u cyfnod cyntaf yn yr ysgol ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Maent yn gwrando’n dda ar gyflwyniadau ac yn gweithio’n effeithiol fel unigolion, parau ac mewn grwpiau bychain. Er enghraifft, wrth adeiladu lloches yr Ail Ryfel Byd ar gae'r ysgol, mae’r disgyblion yn cydweithio’n frwdfrydig ac yn mwynhau rhannu syniadau â’u cyfoedion wrth ddatrys problemau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i adborth staff o fewn gwersi, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’r hyn y mae angen iddynt ei wella yn eu gwaith. Yn yr arfer orau, mae’r disgyblion yn defnyddio saib wrth werthuso eu meini prawf llwyddiant ac yn pennu targedau ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu fel cyfranwyr medrus a chreadigol. Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ‘Pasbort i Bobman’, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn dysgu sut i olchi llestri a gwneud brechdan tra bod disgyblion hŷn yr ysgol yn dysgu am gyllidebau a sut i ysgrifennu llythyr cais. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn dechrau ymgysylltu â phrofiadau a syniadau newydd mewn ffyrdd ymarferol ac mae llawer o’r disgyblion yn datblygu medrau bywyd effeithiol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, yn ystod gwersi lle mae athrawon yn darparu gormod o gymorth a chyfarwyddyd, mae’r disgyblion yn gallu colli diddordeb ac nid ydynt yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer darparu cwricwlwm eang, cyfoethog a chytbwys i’r disgyblion sydd wedi ei wreiddio’n gelfydd yn y gweithgareddau dysgu. Mae’r athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau tuag at eu dysgu, sy’n aml yn arwain at weithgareddau cyffrous er mwyn ennyn eu diddordeb.

Mae staff wedi datblygu a gweithredu cynllun llythrennedd ‘Clwb Clebran’ i gyfoethogi medrau llafar ac ysgrifenedig disgyblion yn hynod effeithiol. Mae staff yn cyflwyno ystumiau cyfarwydd yn grefftus i’r disgyblion, ac yna yn eu hannog i’w defnyddio

mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn datblygu cwestiynau athronyddol ac yn mynegi eu barn yn aeddfed am y gorddefnydd o dechnoleg yn eu bywydau dyddiol.

Gwahoddir ymwelwyr i'r ysgol yn gyson i gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Er enghraifft, daeth actor o gwmni theatr lleol i gymryd rhan mewn sesiwn cwestiwn ac ateb am y nofel 'Goodnight Mister Tom'. Mae hyn yn cynyddu ymrwymiad y disgyblion i'w gwaith, yn atgyfnerthu eu gwaith thema ac yn rhoi perchnogaeth dda i'w dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lles a'u hunaniaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cymhwyso eu medrau rhifedd a datrys problemau i gynllunio ymholiad gwyddonol i weld beth yw effaith ysmygu ar y corff, ac yn rhannu eu canfyddiadau'n effeithiol ar ffurf cyflwyniad digidol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rheoli eu hystafelloedd dosbarth yn effeithiol, gan hyrwyddo ymddygiad da ac annog ymgysylltiad y disgyblion. Mae gan y dosbarthiadau ardaloedd tu allan sy'n hygyrch i'r disgyblion. Er hynny, nid yw'r athrawon bob tro'n gwneud defnydd pwrpasol o'r ardaloedd i gyfoethogi profiadau'r disgyblion a'u hannog i fod yn annibynnol a chreadigol.

Mae athrawon yn cynllunio gwersi'n addas gan sicrhau bod y gweithgareddau'n ddiddorol ac yn ymateb yn briodol i'r ystod o allu o fewn y dosbarthiadau. Maent yn cydweithio'n effeithiol i wella addysgu a dysgu drwy gynllunio a theilwra profiadau sy'n adeiladu ar ddealltwriaeth, gwybodaeth a medrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol mae tueddiad i'r staff orarwain y dysgu, ac mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio cynnydd disgyblion i fod yn annibynnol ac i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Ar draws yr ysgol, mae'r cynorthwywyr yn cefnogi'r dysgu'n effeithiol ac mae perthynas waith arbennig yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Maent yn trin pob disgybl yn gyfartal ac yn hyrwyddo amrywiaeth yn dda. Mae hyn yn cyfrannu'n hyfryd tuag at yr ymdeimlad o deulu sy'n llifo trwy gymuned yr ysgol, ac yn darparu amgylchedd dysgu cefnogol ar eu cyfer.

Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn fodelau iaith cadarn i'r disgyblion. Maent yn annog disgyblion i ddefnyddio a mireinio eu hiaith yn gyson mewn amrywiol weithgareddau dyddiol. Er enghraifft, maent yn darparu tasgau bwriadus yn ystod cyfnodau cofrestru ar gyfer mynd i'r afael â gwallau gramadegol cyffredin yng ngwaith y disgyblion. Mae hyn yn ei dro yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella ansawdd eu medrau ysgrifenedig yn y ddwy iaith ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi a chwestiynu treiddgar yn rheolaidd er mwyn cadarnhau gwybodaeth a dealltwriaeth llawer o ddisgyblion. Maent yn sicrhau cyflymder sionc i'w gwersi sy'n arwain at ymrwymiad priodol ymysg y disgyblion. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cyflwyno nodau addysgol clir a meini prawf llwyddiant yn effeithiol ar gyfer y gwersi. Yn yr arfer orau, maent yn darparu saib defnyddiol er mwyn i ddisgyblion adolygu eu cynnydd. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig

gwerthfawr ac adeiladol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae hyn yn rhoi arweiniad clir iddynt ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau manwl ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn y meysydd dysgu wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae arweinwyr yn dadansoddi perfformiad y disgyblion yn drwyadl, a defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol i ddarparu ymyraethau cadarn. O ganlyniad, mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o asesiadau yn dda i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n fwriadus i hyrwyddo a datblygu lles disgyblion. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag anghenion pob disgybl. Mae trefniadau cadarn a hynod effeithiol i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol bron bob disgybl. Mae'r staff yn meithrin perthynas gadarn â'r disgyblion sy'n hyrwyddo agweddau buddiol at eu lles ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad bron pob disgybl. Er enghraifft, mae modd i ddisgyblion gofnodi unrhyw gonsyrn yn ddyddiol ac mae staff yn ymateb iddo'n amserol. Mae sesiynau meddylgarwch i'r disgyblion i'w harfogi i ddefnyddio strategaethau ymdawelu o fewn y dosbarth.

Mae darpariaeth hynod effeithiol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae gan y tîm ADY brosesau trylwyr i adnabod a chefnogi anghenion addysgol a lles disgyblion. Mae staff yn hollol glir am y prosesau mewnol i gefnogi disgyblion, yn ogystal â sut i gael mwy o gymorth, lle bo angen. Enghraifft nodedig o'r prosesau hyn yw sut mae'r tîm diagnostig yn cwrdd yn fisol i drafod anghenion disgyblion ac atgyfeiriadau staff. Yn dilyn y cyfarfodydd, maent yn cynnig cyngor i gefnogi staff a chyfeirio disgyblion at ymyraethau penodol. O ganlyniad i gynllunio'r ddarpariaeth yn fedrus, mae disgyblion yn cael cefnogaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus.

Mae gan staff drefniadau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ADY sy'n ymwneud â'u targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol â'u dysgu neu eu lles yn gwneud cynnydd da. Mae'r cydlynwyr ADY yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r cynorthwywyr dysgu, gydag ysgolion eraill, ac asiantaethau allanol, i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr. Mae'r ysgol wedi bod yn ddiwyd wrth fynd i'r afael â gofynion diwygio ADY. Mae'r staff yn cyfathrebu'n fwriadus â rhieni a gofalwyr ynglŷn â threfniadau ADY, er enghraifft drwy roi cymorth pellach i deuluoedd am sut i gefnogi disgyblion â dyslecsia.

Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd addas i gefnogi disgyblion ddysgu am faterion sy'n ymwneud â chredoau amrywiol, yn ogystal â myfyrio ar gwestiynau sylfaenol yn dilyn myfyrdod 'Llonyddwch Llun'. Mae'r staff yn helpu disgyblion i ddeall a hyrwyddo hawliau plant yn lleol ac yn dechrau deall anghenion pobl eraill fel aelodau o fyd amrywiol.

Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd bwriadus sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yn y celfyddydau creadigol i feithrin eu gallu mynegiannol yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw sut mae'r disgyblion yn derbyn gwersi cerddoriaeth wythnosol a thrwy roi

cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan ym mherfformiad yr ysgol o'r 'Dewin Oz'. Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant yn gynyddol addas drwy astudiaethau yn yr ardal leol a thrwy hyrwyddo Cymreictod drwy wrando ar gerddoriaeth Gymraeg.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau, sy'n cynnwys nofio, gwersi ffitrwydd a chlybiau. Mae'r meysydd chwarae a'r parc yn caniatáu i staff drefnu a darparu ystod o weithgareddau sy'n cyfrannu'n dda at les a mwynhad disgyblion mewn gweithgareddau addysg gorfforol ac yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw'n heini yn effeithiol.

Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau, er enghraifft drwy eu cynghorau ysgol ac wrth fynegi barn yn effeithiol am yr hyn y maent am ei ddysgu o fewn eu themâu dosbarth.

Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol ac nid yw'r trefniadau'n peri pryder. Mae'r drefn o ran adrodd pryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae'r staff yn gwneud atgyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau trylwyr ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth ysbrydoledig yn arwain yr ysgol yn hynod o effeithiol ac wedi llwyddo i greu a sefydlu gweledigaeth glir, sydd wedi ei rhannu â holl gymuned yr ysgol. Sylfaen y weledigaeth yw sicrhau'r gorau o ran addysg a lles, ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu hyn. Mae'r ysgol yn gymuned hapus, deuluol a chyfeillgar.

Mae safon y cyfathrebu gan yr ysgol yn nodwedd gref, ac yn cael effaith bositif ar safonau addysgol ac ymrwymiad y rhieni i'r ysgol. Mae 'blog' rheolaidd y pennaeth yn gymorth i rieni gadw trefn ar ddigwyddiadau o fewn yr ysgol, ac yn rhoi awgrymiadau gweithgareddau llesol i ddisgyblion ac oedolion. Mae'r rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am waith yr ysgol, gan gynnwys adroddiadau ysgrifenedig sy'n darparu gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant. Mae barn y rhieni yn bwysig i'r ysgol ac mae partneriaeth gref wedi sefydlu sy'n helpu cymuned yr ysgol i ffynnu.

Mae staff a llywodraethwyr yn cydweithio ac yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y disgyblion a'r staff. Mae arweinwyr wedi datblygu tîm effeithiol o staff sy'n ymroi'n llwyr i werthoedd yr ysgol ac i hybu lles y disgyblion a'r staff. Maent yn gwbl glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn cryfhau arweinyddiaeth yr ysgol drwy greu dirprwyon i rolau allweddol er mwyn sicrhau bod olyniaeth yn cael ei rheoli'n dda ac yn cynnig datblygiad proffesiynol gwerthfawr i staff.

Mae'r pennaeth yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus gyda chymorth profiadol y corff llywodraethol. Mae cynllun clir ar waith i sicrhau bod gwariant yn cefnogi amcanion strategol yr ysgol. Enghraifft dda o glustnodi'r gwariant yw'r ddarpariaeth sesiynau

ymyrraeth i ddisgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol, ac wrth gynnal sesiynau cefnogi llythrennedd ar gyfer disgyblion. Caiff y grant datblygu disgyblion ei ddefnyddio'n bwrpasol i ddarparu rhaglenni cymorth i ddisgyblion ac i sicrhau bod pob disgybl yn mynychu teithiau ysgol penodol. O ganlyniad, mae disgyblion yn medru manteisio ar gyfleoedd addysgol buddiol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar eu safonau a lles.

Mae'r llywodraethwyr yn falch o'r ysgol ac yn ei hadnabod yn dda. Maent yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac yn cyflawni eu rolau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth o flaenoriaethau cenedlaethol, ac yn gweithredu eu cyfrifoldebau i sicrhau bod disgyblion yn dysgu am fwyta ac yfed yn iach yn briodol.

Mae gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso cadarn a chynhwysfawr. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n effeithiol â'r llywodraethwyr trwy ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau monitro a gwerthuso pwrpasol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r camau gwella yn cael eu nodi'n glir a'u mireinio trwy broses effeithiol o ymgysylltu ag ystod dda o randdeiliaid, gan gynnwys y disgyblion. Mae amserlen glir yn nodi cyfrifoldebau pob aelod o staff ac mae adroddiadau monitro yn cael eu dadansoddi'n fanwl i sicrhau bod safonau'n gwella yn barhaus.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnig cyfleoedd cyfoethog iddynt ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol, sy'n ymateb i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r ysgol yn gadarn. Esiamplau da o'r hyfforddiant a gynigir yw hyfforddiant trawma i gefnogi disgyblion ag anawsterau emosiynol a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Mae staff yn cael eu cefnogi'n effeithiol i wella eu medrau addysgu ac i gyrraedd eu dyheadau gyrfa, er enghraifft cynorthwywyr yn hyfforddi i fod uwch gynorthwywyr neu staff yn hyfforddi i fod yn athrawon. Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn glir a chynhwysfawr ac mae ganddynt dargedau pwrpasol a gweithdrefnau monitro effeithiol ar waith i fonitro cynnydd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2023